# Enghraifft Llythyr Sesiwn 4

Annwyl Gynghorydd [Nodwch Enw],

Rwy’n ddisgybl Blwyddyn … yn Ysgol Gynradd Holton, Y Barri. Rwy’n ysgrifennu atoch heddiw am y nifer o fannau parcio beiciau sydd yn yr ysgol. Er bod maes parcio aml-lawr mawr gyferbyn â’r ysgol, nid oes parcio ar gyfer beiciau. Mae hyn yn golygu bod rhaid i mi gloi fy meic ar reiliau’r ysgol yn hytrach, ac felly mae’r beic o dan draed.

Mae’r nifer o feiciau sydd yma fel arfer yn dangos bod llawer o bobl yn dewis beicio i Ysgol Gynradd Holton. Fodd bynnag, os nad oes digon o fannau ar gyfer parcio beiciau, bydd hyn yn annog pobl i beidio â beicio yma, gan fod angen lle diogel arnyn nhw i gloi eu beiciau.

Rwy’n meddwl y byddai’n ardderchog os gellid gosod mwy o fannau parcio beiciau, dan gysgod yn ddelfrydol. Byddai hyn yn annog mwy o bobl i feicio i’r ysgol, gan y byddai’n rhoi lle diogel a sych i bobl adael eu beiciau.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yr eiddoch yn gywir,